

## DATGANIAD CYLLIDEB CYNGOR TREF ABERAERON 2016-17

Rhodddwyd ystyriaeth fanwl gan Gyngor Tref Aberaeron yn ei gyfarfod diwethaf, ar y 12fed o Ionawr, i'r mater o osod y gyllideb a'r praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gwnaed y penderfyniad yng nghyd-destun y ffactorau canlynol:-

- Lleihad yn y Sail y Dreth Cyngor ar gyfer Aberaeron, fel a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ceredigion (sef y mesur o'r tax raising capacity in each Council's area), o £741.10 i £726.03  
- yr angen i gytuno'r praesept erbyn y 29ain o Ionawr, sef y dyddiad cau a osodwyd gan y Cyngor Sir i'r holl cynghorau bro a thref yng Ngheredigion, er na dderbyniwyd unrhyw wybodaeth ffurfiol hyd yn hyn oddi wrth y Cyngor Sir a fyddai'n gofyn am gymorth ariannol ychwanegol gan Gyngor y Dref er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau penodol yn 2016-17.

Penderfynodd Cyngor y Dref i osod praesept o £36,606 sy'n gynydd bach ar y swm a godwyd eleni, sef £36,277. Y mae hwn yn golygu codiad o 3% yn swm Treth y Cyngor eleni ar gyfer eiddo Band D, o £48.95 i £50.42.

Penderfynodd y Cyngor osod y praesept ar y lefel hwn oherwydd ei fod yn gorfod paratoi ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ychwanegol, gan gynnwys darparu a chynnal a chadw yn y dyfodol meysydd chwarae Parc-y-fro a Chae Sgwâr.

Hefyd, er ei fod heb glywed oddi wrth Geredigion, y mae'r Cyngor unwaith yn rhagor wedi neilltuo arian er mwyn cyfrannu at y gost o ddarparu'r gwasanaeth isod gan y Cyngor Sir:

- cadw Toiledau Traeth y De yn agored yn yr haf
- sichrau fod y Ganolfan Croeso yn agored ar y Sul
- arddanosfeydd blodau yn yr haf.

Y mae Cyngor y Dref hefyd yn cyfrannu at gostau blynyddol Pwll Nofio Aberaeron a'r Ardal.

Unwaith eto, y mae'n defnyddio arian wrth gefn – y swm eleni yw £9,413 – yn rhannol i gwrdd â rhandaliadau cost hanesyddol darparu goleuadau ar Heol Llywen.